

Atal pibellau rhag rhewi - Lapio cyn cracio

Diogelu pibellau rhag rhewi

Gofalwch rhag wynebu trafferthion eleni! Gallai dilyn y cyngor syml isod helpu i osgoi'r problemau a chostau sy'n codi pan fydd pibellau'n rhewi. Bydd rhwygo pibellau'n achosi difrod gwerth miliynau o bunnoedd bob blwyddyn ac yn gwastraffu dŵr yn ddiangen.

Mesurau cyn tywydd oer

Inswleiddio

Cofiwch inswleiddio pibellau, sestonau & tanciau mewn mannau heb wres megis lloffttydd, toi, o dan eich lloriau ac mewn adeiladau allanol. Bydd yn hanfodol llenwi unrhyw fylchau yn y deunydd inswleiddio mewn mannau fel troadau, uniadau, falfau etc ar y pibellau gan y gallai arwain at rewi pocedi o ddŵr o fewn y system mewn llai nag awr.

NB. Peidiwch â gosod deunydd inswleiddio o dan eich tanc oherwydd bydd yn rhwystro aer cynnes rhag codi o'r ystafelloedd isod. Bydd yr aer yn helpu i gynhesu'r tanc a diogelu rhag rhewi.

Defnyddiwch ddeunydd inswleiddio o safon BS 5422 a'i osod yn unol ag amodau BS 5970.

Stoptap

Gwirio lleoliad y stoptap a sicrhau byddwch yn gallu ei droi i fwrdd os bydd gollyngiad.

Tapiau'n diferu

Trwsio unrhyw dapiau sy'n diferu cyn i'r tywydd droi'n oer.

Camau adeg tywydd oer

Gwresogi

Ystyried cadw'r gwres arno am gyfnod hirach ac uwch y rhewbwynt ar bob amser er mwyn atal pibellau rhag rhewi. Bydd hynny'n bwysig iawn os byddwch i fwrdd o gartref am ychydig ddyddiau, pan na fyddwch yn defnyddio'r dŵr.

Os am fod i fwrdd o gartref am gyfnod estynedig, trowch y dŵr i fwrdd a draeniwch y system

NB: Ni fydd inswleiddio'n atal pethau rhag rhewi. Yn hytrach bydd yn cynyddu'r amser cyn bydd pibellau ac offer arall yn rhewi, os na fydd tymheredd yr aer yn codi dros y rhewbwynt yn y cyfamser.

Draenio

Ni fydd hyd yn oed y deunydd inswleiddio gorau'n diogelu pibellau rhag rhewi os bydd y tywydd yn para'n oer iawn. Felly, yn ystod cyfnodau oer estynedig, dylech ynysu a draenio pibellau allanol a gadael y tapiau draenio'n agored. Gallwch adfer y sefyllfa unwaith bydd y tywydd wedi cynhesu.

Taclo pibellau wedi rhewi

Rhewi

Cofiwch, er bydd rhew yn difrodi pibellau ni fydd hynny'n amlwg tan iddynt ddadlaith. Os bydd pibellau'n rhewi, dylech ynysu'r ardal wrth gau'r stoptap (clocwedd bob tro) ar y cyflenwad hwnnw.

Gwirio lleoliad y stoptap cyn y gaeaf a sicrhau byddwch yn gallu ei droi i fwrdd.

Os na fydd modd ei gau, caewch y stoptap allanol ar ffin eich eiddo (os bydd yn saff i wneud hynny). Pan fydd y rhew yn dadlaith, cofiwch agor tapiau ac ati drwy'r tŷ er mwyn draenio'r system yn llwyr. Dylai hynny ostwng unrhyw ddfrod os bydd dŵr yn gollwng o bibell wedi rhwygo.

Dadlaith

Cyn dadlaith y system, symudwch unrhyw beth a allai gael ei effeithio gan ddŵr yn gollwng o bibellau wedi rhwygo.

Rhybudd

Ar ôl rhewi, gallai cynyddu'r gwres yn sydyn achosi ffrwydrad. Felly, peidiwch â defnyddio offer gwresogi dŵr, bwyleri etc tan i'r system ddadlaith yn llwyr.

Peidiwch â thrio dadlaith pibellau gyda fflam agored megis chwythlamp. Yn hytrach, defnyddiwch botel dŵr poeth neu sychwr gwallt. Ond byddwch yn ofalus, os bydd pibell wedi rhwygo, gallai dŵr ollwng wrth ei dadlaith. **Pwysig! Nid yw dŵr & trydan yn cymysgu.**

Byddwch yn ofalus gyda gwifrau ac offer trydan os bydd pibell wedi rhwygo. Os yn amau problemau, trowch i fwrdd y trydan a galwch drydanwr cymwys. Ac os bydd difrod i bibellau, mae'n debyg byddwch am alw plymwr.

Trwsio pibellau wedi rhewi ac osgoi problemau tebyg yn y dyfodol

Dylech adnewyddu unrhyw bibell neu ffitiad fydd wedi rhewi gyda phibellau a ffitiadau cymeradwyedig. Pan fydd hynny'n ymarferol, trîwch osod pibellau a ffitiadau newydd a'r rhai cyfagos ar ddyfnder dim llai na 750mm neu o fewn mannau wedi'u gwresogi o fewn adeilad. Os na fydd hynny'n bosibl, lapiwch y pibellau gyda deunydd inswleiddio o safon BS 5422 a'i osod yn unol â BS 5970.

Cofiwch hysbysu gollyngiadau

Os yn credu fod dŵr yn gollwng o'n pibellau galwch ni ar **0800 284 432**, 24 awr, saith dydd yr wythnos.